

## Cofion a Chyfarchion

- Mae'n dda cael adrodd bod Trefor Jones a Bethan Harrison (Nantglyn) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Anfonwn ein cofion atynt, gan weddio y bydd y ddau yn cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno a hefyd ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.
- Llongyfarchiadau i Dyfan a Hayley Jones (Groes) ar enedigaeth mab bach, Harri Thomas. Gweddiwn dros y teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.
- Llongyfarchiadau hefyd i'r plant a'r oedolion fu'n paratoi gwaith cwrs yr Ysgol Sul – 'Dathliadau'r Beibl a'r Eglwys' ac a fydd yn cael eu gwobrwyo nos Wener nesaf ym Metws yn Rhos.

## Cymdeithasfa'r Gwanwyn

Hoffwn ddiolch ymlaen llaw i bawb fydd yn cynorthwyo mewn unrhyw ffordd i estyn croeso i'r Gymdeithasfa i Lansannan yr wythnos hon. Estynnwn ninnau groeso cynnes i chithau i ymuno yn yr oedfa ar y nos Fawrth, ac i'r blaenoriaid i fynychu'r holl neu rai o'r eisteddiadau. Mae copi o raglen y ddau ddiwrnod wedi ei anfon i bob eglwys hefo Llais Bro Aled er mwyn i chi gael gwybod beth fydd cynnwys yr eisteddiadau. Hyderwn y bydd y cyfan yn mynd yn hwylus ac y bydd bendith Duw ar y cyfan o weithgarwch y Gymdeithasfa.

## I ddo

- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 13eg am 10.00. Y siaradwr fydd y Parch. Ddr. Noel Davies, Abertawe. Croeso i bawb.
- **SASIWN PLANT YN HENLLAN** dydd Sul, Mai 18fed am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.
- **DIWRNOD DYNION** yn y Bala ar Mehefin 7fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 13eg-14eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru (*manyllion uchod*).

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4<sup>ydd</sup> Mai 2014

Darlleniad y Dydd

Salm 150

(BCND tud.575 / BCN: tud.526)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i'r oedfaon. Croeso hefyd i fis Mai! A chroeso i'r Gymdeithasfa yn y Gogledd a fydd yn cael ei chynnal yn Llanfannan yr wythnos hon. Diolch i bawb sydd wedi bod yn paratoi ar ei chyfer a gobeithio y bydd bendith Duw ar y cyfan o'i gweithgarwch. Parhawn i weddio dros Meirion a holl weinidogaeth yr eglwys a'i holl bartneriaid yng Nghymru ac yn y byd.

Un o'r pethau sydd wedi fy nharo'n dros y flwyddyn ydi pa mor fawr ydi'r eglwys! Cefais y fraint o bregethu yn Llanw eleni a chael fy arwain trwy lythyrau Paul at yr eglwys cynnar. Wrth iddo feddwl am yr Ysbryd yn dod â phobl o'r newydd i gredu yng Nghrist yn y trefi a'r ardaloedd hynny yr oedd yn mynd iddynt i bregethu, mae Paul yn synnu at yr hyn y mae Duw yn ei wneud o'r newydd yn y byd. Mae Paul yn gweld Ysbryd Duw yn cael ei roi yn bwrpasol i rannu bendithion Duw ymysg y bobl hynny oedd wedi bod yn ddiethr i'r addewidion a'r cyfamodau yr oedd Duw wedi eu rhoi i Israel yn unig dros y canrifoedd cynt. Mae'n gweld y gwaith fel Duw yn creu un teulu mawr, fel creu corff dan Arglwyddiaeth Crist, y pen, ac fel Duw yn creu dynoliaeth newydd!

Nod y cyfan ydi creu "dynoliaeth lawn dwf" – dynoliaeth aeddfed sy'n adnabod pwrpas Duw wrth iddo ddod â phob peth a oedd wedi ei chwalu a'i rwygo gan bechod i gymod a heddwch dan awdurdod Iesu. Mae'r ffaith yma'n realiti i ni hefyd ac i bawb sy'n dod i gredu yng Nghrist ar draws y byd. Os ydym wedi credu yng Nghrist ac wedi dod, trwy ras, i adnabod Iesu, yna mae holl addewidion a chyfamodau Duw yn eiddo i ni yng Nghrist ac fe'n gwnaethpwyd yn frawd neu yn chwaer i bob Cristion arall yn y byd.

Ond i be? Dyna ydi'r cwestiwn sydd wedi bod ar fy meddwl. Beth ydi gwaith a phwrpas y ddynoliaeth newydd yma yng Nghrist? Cefais atebion da gan y dosbarth sy'n dod i Llanefydd at Tom Williams i astudio'r Gair. Cawsom ein harwain at sawl ateb. Pwrpas y ddynoliaeth newydd yma – yr Eglwys – ydi caru'r byd a charu'i gilydd yn enw Crist ac yn ôl ei esiimpl. Pwrpas arall ydi dod â chymod i'r byd – gweinidogaeth cymod sydd gennym sy'n golygu ein bod yn trio cael pobl at ei gilydd mewn heddwch a'u rhyddhau o bob caethiwed. Mae'n ddynoliaeth newydd sydd wedi ei chreu hefyd i ddo a chân newydd i'r byd. Cân am waredigaeth – emynau o foliant i Dduw am fawredd Iesu – cân yn y galon sy'n clodfodi Iesu. Meddyliwch mor dlawd fyddai'r byd heb y gân yma ynddo!

Gobeithio y bydd yr ymdeimlad yma o fod yn perthyn i eglwys fawr yn wir yn ein profiad ni wrth gydaddoli heddiw ac wrth i'r Gymdeithasfa ddod atom. Gweddiwn y bydd yr Ysbryd yn cadarnhau ynom y gwirionedd syfrdanol yma ein bod wedi ein mabwysiadu i deulu mawr y ffydd, o ddynoliaeth newydd, a rhan o fwriad mawr Duw yn y byd!

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Diarhebion 22:1-6 (BCND tud.595 / BCN: tud.543)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth • Bydd y **Gymdeithasfa** yn cyfarfod yn Llansannan am 10.30, 1.30, a 5.30. Mae croeso i unrhyw flaenor fynychu'r eisteddiadau hyn ond dim ond y cynrychiolwyr sydd i bleidleisio. Yna, am 7.00 yr hwyr, fe gynhelir oedfa a cheir araith gan Mr Huw Tudor, Llywydd y Gymdeithasfa. Mae croeso i bawb fynychu'r eisteddiad hwn.
- Mercher • Bydd y **Gymdeithasfa** yn cyfarfod yn Llansannan am 10.00 ac yma eto, mae croeso i unrhyw flaenor i fynychu'r eisteddiad hwn.
- lau • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos. Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a **Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i Wobrwyo Plant ac Oedolion yr Ysgol Sul** a lluniaeth ysgafn i ddilyn. Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd cyfle i groesawu cyfeillion Eglwys Sinan i'r Gwasanaeth Cymorth Cristnogol dwyieithog a gynhelir yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30 a bydd cinio cynnil i ddilyn (£5 i oedolion) gyda'r elw tuag at Gymorth Cristnogol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yno am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yn yr Eglwys am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym MHENIEL am 2.00 (sylwch ar y newid lleoliad). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn y capel am 2.00 gyda Mr Peter Smith yn pregethu. Bydd paned i ddilyn.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol i'r teulu dan ofal Aneurin yng Nghapel Llanefydd am 10.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.